
Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2020-21



Darlith 9
Dydd Mawrth 17eg o Dachwedd 2020

Tiwtor :

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Rhagoriaith
Canolfan Gwasanaethau Cymraeg

Cerddi a mwy...

Nod y sesiwn:



- Trafod sut mae llenyddiaeth yn gallu cyfoethogi iaith
- Edrych ar elfennau ieithyddol sy'n codi.


Cwricwlwm newydd i Gymru





Cwricwlwm Newydd i Gymru!

Y 6 MAES DYSGU A PHROFIAD YW:



Y 3 CYFRIFOLDEB TRAWSGWRICWLAIDD YW

Llythrennedd

Cymhwysedd Digidol

Rhifedd

Y 4 DIBEN ER MWYN CREU:



Aspire 2Be.
info@aspire2b.eu

@TEACHER_IN_TECH

#teachmetuesday

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



https://hwb.gov.wales/storage/04cb83d9-7c43-4c4a-8791-c14e4bf627d6/canllawiau-statudol-drafft-ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu.pdf

Yr Hyn sy'n Bwysig mewn Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Mae llenyddiaeth yn ehangu gorwelion. Mae'n ein hysbrydoli ac yn ein cymell, gan ein helpu hefyd i ddysgu mwy am iaith.

Bydd y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr a fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel darllenwyr, gwrandawyr, gwylwyr, awduron a llenorion. Byddant nid yn unig yn gallu gwerthfawrogi crefft y llenor ond byddant hefyd yn gallu meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddant yn profi ac yn ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n rhoi dealltwriaeth iddynt o ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Drwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u profiadau, eu credoau a'u diwylliannau eu hunain a phobl eraill wella, caiff dysgwyr gymorth i ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at eu lles emosiynol a'u lles meddwl. Gyda'i gilydd, bydd y profiadau a gynigir fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad hwn yn tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr ac yn helpu i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

Creadigrwydd ac Arloesi

Mae llenyddiaeth yn ysbrydoli creadigrwydd ac mae sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu yn hanfodol er mwyn archwilio syniadau a mynegi safbwyntiau yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol. Mae deall eu hunaniaeth a'u diwylliant eu hunain drwy ieithoedd, a datblygu agwedd agored tuag at eraill, yn rhoi dewrder i ddysgwyr fentro, arbrofi a defnyddio ieithoedd yn greadigol.



Gwëir y ddau ddatganiad arall o'r hyn sy'n bwysig trwy bopeth a wnaed mewn Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

- Mae dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd yn ein paratoi i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

Gwelir sgiliau iaith a dealltwriaeth o hunaniaeth a diwylliant yn cael eu datblygu trwy lenyddiaeth; mae hunaniaeth a diwylliant yn cynnig cyd-destun ar gyfer dysgu ieithoedd.



Y Cwricwlwm ehangach

Ar ben hynny, mae llenyddiaeth yn cynnig cyd-destun amrywiol i Faes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r cwricwlwm ehangach, yn ogystal â chyfleoedd i archwilio hunaniaeth a diwylliant.



Beth ydy cerdd?



Darn o farddoniaeth ydy cerdd sydd yn dweud rhywbeth mewn ffordd fachog a chofiadwy.

Beth ydy bardd?

Bardd yw'r person sy'n llunio cerddi.
Gellir adrodd neu ganu cerddi.
Mae **bardd** yn ysgrifennu barddoniaeth, ac mae **awdur** yn ysgrifennu rhyddiaith.



- Pa fath o gerddi ydych chi'n hoffi?
- Oes gennych chi hoff gerdd?



Bardd Plant Cymru

Mae Cymru'n wlad sy'n nodedig am ei beirdd, ac ers 2000 mae unigolyn wedi ei benodi fel Bardd Plant Cymru bob blwyddyn. Pwrpas y cynllun yw annog plant a phobl ifanc i fwynhau darllen ac ysgrifennu cerddi o bob math.

Allwch chi enwi rhai ohonynt?

Bardd Plant Cymru



Gruffudd Owen – Bardd Plant Cymru
2019-21



Casia Wiliam
(2017-19)

Mwy



Anni Llŷn
(2015-17)

Mwy



Aneirin Karadog
(2013-15)

Mwy



Eurig Salisbury
(2011-13)

Mwy

https://www.llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/bardd-plant-cymru/

Beirdd Plant y gorffennol

Dewi Pws (2010-11)	**Twm Morys** (2009-10)	**Ifor ap Glyn** (2008-09)	**Caryl Parry Jones** (2007-08)
Gwyneth Glyn (2006-07)	**Mererid Hopwood** (2005-06)	**Tudur Dylan Jones** (2004-05)	**Ceri Wyn Jones** (2003-04)
Menna Elfyn (2002-03)	**Mei Mac** (2001-02)	**Myrddin ap Dafydd** (2000-01)	

Gwaith Grŵp – Rhannu Syniadau



Barddoniaeth a Rhifau



Meddyliwch am syniadau yn barod ar gyfer y ddarlith nesaf.



- *Sgram!, Atebol, 2012*

Dewiswch un gerdd.

- Sut basech chi'n cyflwyno'r gerdd i ddosbarth yn yr ysgol?
- Pa fath o weithgareddau gallech chi wneud gyda'r gerdd?
- Pa sgiliau byddai'r gweithgareddau yma yn eu datblygu?

Dewiswch un o'r cerddi yma o'r gyfrol *Sgram!**

Parti, *Sgram!*, t. 27

Rhannu, *Sgram!*, t. 30

Fy ffrindiau i, *Sgram!*, t. 31

Llygod bach, *Sgram!*, tt. 42-42

Beiciau, *Sgram!*, t. 64

Faint sy ar ôl? *Sgram!*, t. 72

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Camau cynnydd

Wrth gynllunio cofiwch ystyried pa sgiliau sy'n cael eu datblygu.







Cenedl Enwau Technegau Arddull
(hwn / hon)



llythyren	
sillaf	rhythm
gair	delwedd
llinell	personoliad
adran	cymhariaeth
pennill	sill
cerdd	arddull
syniad	
trosiad	

Technegau Arddull Trafod Cerddi

y llythyren hon
y sillaf hon
y llinell hon
yr adran hon
y ddelwedd hon
y gyffelybiaeth hon
y gymhariaeth hon
y gerdd hon

y pennill hwn
y gair hwn
y personoliad hwn
y syniad hwn
y trosiad hwn
y rhythm hwn
y darn hwn

y sill hwn/hon
yr arddull hwn/hon

Wrth drafod barddoniaeth cofiwch...

Enw benywaidd yw ‘cerdd’ :

Y **g**erdd hon / y **c**erddi hyn
Mae’r **g**erdd yn...
Un **g**erdd, dwy **g**erdd, tair **c**erdd.



Enw gwrywaidd yw ‘bardd’ :

Y **b**ardd hwn / y **b**eirdd hyn
Mae’r **b**ardd yn...
Un **b**ardd, dau **f**ardd, tri **b**ardd.

Enw benywaidd yw ‘llinell’ :

Y **ll**inell hon / y **ll**inellau hyn
Mae’r **ll**inell yn...
Un **ll**inell, dwy **l**inell, tair **ll**inell.

Enw gwrywaidd yw ‘pennill’ :

Y **p**ennill hwn / y **p**enillion hyn
Mae’r **p**ennill yn...
Un **p**ennill, dau **b**ennill, tri **ph**ennill.

Hefyd, cofiwch fod ansoddair sy’n dilyn enw benywaidd unigol yn treiglo’n feddal.

Berfau Cryno

Wrth ysgrifennu, mae'n bwysig amrywio'r modd rydych yn dechrau brawddegau, gan osgoi dechrau yn yr un ffordd bob amser
e.e. *Mae'r bardd yn gweld / Mae'r awdur yn clywed / Mae'r gerdd yn sôn...*

Mae'n llawer gwell defnyddio'r FERF GRYNO
e.e. Gwêl y bardd / Clyw'r awdur / Sonia'r gerdd...

Os nad ydych yn gwybod PWY sy'n gwneud, yna defnyddiwch yr AMHERSONOL e.e.
Clywir yr adar yn canu / Dywedir bod y tywydd ar fin troi

Berfau cryno defnyddiol wrth drafod cerddi

Berfenw	3ydd unigol	Amhersonol
gweld	gwêl	gwelir
clywed	clyw	clywir
disgrifio	disgrifia	disgrifir
dweud	dywed	dywedir
awgrymu	awgryma	awgrymir
cyfleu	cyflea	cyfleir
honni	honna	honnir
esbonio	esbonia	esbonir
mynd	â/aiff	eir
dod	daw	deuir
cael	caiff	ceir
sefyll	saif	sefir
cymharu	cymhara	cymherir
agor	egyr	agorir
dangos	dengys	dangosir
mynnu	mynna	mynnir
gwybod	gwyr	gwyddys
troi	try	troir
synhwyro	synhwyra	synhwyrir

Rhai technegau a ddefnyddir mewn cerddi

Odli : dau air sydd yn swnio'n debyg i'w gilydd

Ansoddair : gair sy'n disgrifio

Berfenw : gair sy'n cyfleu gweithred

Berf : gair sy'n cyfleu gweithred ond sydd hefyd yn dweud wrthym **pwy** a **phryd** sy'n gwneud y weithred

Cymhariaeth / cyffelybiaeth : cymharu rhywbeth â rhywbeth arall

Personoli : rhoi teimladau neu nodweddion person i rywbeth arall

Trosiad : siarad am un peth yn nhermau rhywbeth arall

Ailadrodd : defnyddio'r un gair neu gyfres o eiriau mwy nag unwaith i greu effaith

Cyflythreniad : cytseiniaid yn cael eu hailadrodd ar ddechrau gair mewn llinell

Cerddi fel sbardun i drafod.

Datblygu **sgiliau llafar** drwy lenyddiaeth.

Wythnos gwrth-fwlio.
16eg – 20fed Dachwedd 2020.



Diolch i Dîm Datblygu'r Gymraeg yng Ngheredigion

https://spark.adobe.com/video/UtAzyQVnGs24j?fbclid=IwAR00LvQTFy6cNbRxzsmvV8aOFyB-upSOx7KRD7MCYsTu1p_J6wZfwPZgX3o

Y Cwricwlwm Ehangach...



http://www.barddoniaeth.cymru

Adnoddau eraill.

Odliadur

beirdd bach
UWCH BEIRDD Y BYD

https://www.barddas.cymru/newyddion-barddas/cyhoeddi-gwasg-beirdd-bach/





http://odli.cymru/


BARDD PLANT CYMRU YN 20 OED
Amser Canu, Blant!
Leonie Servini
Pawen Lawen!
cerddi am fyd natur
Casia Wiliam
Mae 'na Arth Wedi Dwyn fy Mhyjamas
CERDDI GANOL NOS
GRUFFUDD OWEN
Dim Ond Traed Brain
Arni Llŷr
Valériane Leblond
Geiriau Diflanedig
ROBERT MACFARLANE
JACKIE MORRIS
MEREDID HOPWOOD
Fy Llyfr Englynion
Cyfeiryd gan
Mererid Hopwood
BARDD PLANT CYMRU 20
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES
S4C


Lluniau yn fy mhen


ROALD DAHL
CERDDI FFIAIDD
Dariluniwyd gan
Quentin Blake


CERDDI'R COF
GOREUON BARDDONIAETH I BLANT
Cyfeiryd gan
MERERID HOPWOOD
DREF WEN


'YCH A FI!'
a cherddi eraill
Angharad Tomos